LLAW AR Y LLYW

Sandra Morris Jones

Henaint ni ddaw ei hunan, medden nhw. A dyma ni'n aelodau o fudiad sydd wedi dathlu pen blwydd arbennig. Sut mae teimlo'n 50 oed, tybed? Yr ateb wrth gwrs yw GWYCH.

Rydym wedi cael blwyddyn arbennig gyda digwyddiadau bythgofiadwy ar ei hyd hi ar draws Cymru, ac rwyf wedi llwyddo i fynychu tipyn ohonynt. Yn anffodus, fel y gwyddoch, mae afiechyd a chyfnod yn yr ysbyty'n golygu na lwyddais yn fy mreuddwyd o fynychu dathliad pob rhanbarth. Rwyf am ddiolch i chi am ddeall ac am boeni amdanaf. Diolch o galon i bawb am drefnu digwyddiadau fel te parti, cinio canol dydd, swper, cyngerdd a oedd wrth fodd yr aelodau. Hyfryd oedd derbyn cefnogaeth cymaint o'r aelodau, gan gynnwys aelodau o'r clybiau Gwawr.

Yn genedlaethol cafwyd blwyddyn fythgofiadwy gyda phroject treftadaeth y loteri'n sicrhau bod hanes go gyflawn o'r mudiad yn cael ei gofnodi. Cawsom ddwy ferch hyfryd yn swyddogion y project – Alaw Roberts yn gweithio yn y gogledd a Branwen Davies yn y de. Erbyn hyn casglwyd a chofnodwyd dros wyth mil o eitemau ganddynt, cafwyd hwyl wrth chwilio am gofnodion, rhaglenni, lluniau, arteffactau o bob math, a dechreuodd yr atgofion lifo nôl. Roedd rhai'n cofio'r siwtiau loncian, yn dyddio o'r 1970au a'u gwisgo mewn nosweithiau cadw'n heini; eraill yn cofio teithio i Lundain er mwyn lobïo San Steffan i ferched Cymru gael profion sgrinio canser y fron, neu'r gwyliau yn Rwsia. Mae cyfnod Alaw a Branwen yn dirwyn i ben wrth i mi lunio'r golofn hon, ond mae'r gwaith yn parhau. Bydd cyfle I ychwanegu at y casgliad o hyn ymlaen, gan gyfoethogi hanes merched yng Nghymru, ac hanes Cymru yn ail hanner yr ugeinfed ganrif. Diolch i Alaw a Branwen am eu gwaith proffesiynol a'u cwmni yn ystod y flwyddyn. Wrth gwrs rhaid cyfeirio at y paneli ysblennydd a grewyd gan bob rhanbarth, ac sy dal ar eu taith o gwmpas Cymru. Maent yn hardd eithriadol ac yn destun edmygedd. Bydd yn braf eu gweld yn gorffen eu taith ac yn cartrefu'n derfynol yn ein canolfan yn Aberystwyth. Fel llywydd rwyf yn falch iawn o dalentau'r

Sandra Morris Jones yn anrhegu Gwyneth Griffiths ar ddiwedd ei chyfnod fel Trysorydd Cenedlaethol

aelodau ac yn ymhyfrydu yng ngwaith pwythwyr y paneli.

Cafwyd pen wythnos preswyl llwyddiannus tu hwnt yn Aberystwyth. Roedd yr ystafelloedd, y bwyd, yr addysg, yr adloniant a'r cwmni o'r safon uchaf. Roedd digon o weithgareddau at ddant pawb – artistiaid talentog yn rhoi perfformiadau arbennig, gwibdeithiau diddorol o gwmpas gwahanol ardaloedd yng ngogledd Ceredigion, siaradwyr llawn afiaith, a llawer mwy. Os nad ydych chi wedi bod ar y penwythnos hwn, meddyliwch am ddod y flwyddyn nesaf.

Erbyn y darllenwch y golofn hon byddwch wedi hen setlo mewn i'ch rhaglen yn y gangen neu'r clwb. Gobeithio eich bod yn mwynhau shwd gymaint fel eich bod wedi denu aelodau newydd. Rydym wedi cael tipyn o sylw yn y cyfryngau eleni – mae pobl wedi clywed amdanon ni. Nid yw'n rhy hwyr i chi ystyried agor cangen neu glwb newydd efallai. Y mae angen llenwi pob rhan o Gymru gyda changhennau neu glybiau Gwawr. Ewch amdani ferched! Yn fy nghangen i, rwyf am longyfarch Aeronwen a Llinos am gymryd swyddi'r llywydd ac ysgrifennydd gydag Anne a Delyth yn is lywydd ac is ysgrifennydd am flwyddyn cyn cymryd yr awenau. Maent oll yn ferched deallus gyda diddordebau gwahanol, eang, ac maent oll yn fawr eu gofal ohonom yn y gangen. Mae'n braf bod yn aelod o fudiad Merched y Wawr, on'd yw hi?

Enillwyr Posau Rhif 197

POS Y CASTELL. (76 wedi cystadlu)
Carol Jones, Cangen Llannon, Ceredigion.
Myfanwy Roberts, Cangen Carmel, Rhanbarth Conwy.
Enid Young, Cangen Yr Wyddgrug, Rhanbarth Glyn Maelor.
Gwen Smith, Cangen Henllan, Rhanbarth Colwyn.
Margaret Evans, Cangen Rhosmeirch, Môn.

MERCHED Y CHWEDLAU. (57 wedi cystadlu)
Ann Vaughan, Llangernyw, Conwy.
Marian Roberts, Blaenau Ffestiniog, Meirion.
Myra Agnes Jones, Cangen Porthaethwy, Môn.
Yvonne Griffiths, Cangen Pencader a'r cylch, Caerfyrddin.
Tegwen James, Cangen Gronw,Caerfyrddin.